**Atodiad 1 – Disgwyliadau Cyflawni Allweddol**

| **Blaenoriaethau Strategol ar gyfer 2025-28** | **Disgwyliadau Cyflawni'r Gweinidogion ar gyfer 2025-26 (lle bo'n briodol)** |
|---|---|
| Iechyd y Boblogaeth ac Atal | • Cynnydd yng nghanran y cleifion (12 oed a hŷn) â diabetes a gafodd bob un o'r wyth proses gofal a argymhellir gan NICE<br>• Cyflawni targedau brechiadau yn y fframwaith perfformiad |
| Meithrin Capasiti Cymunedol | • Cyflawni tuedd leihau o 12 mis yn nifer y bobl sy'n cael eu gohirio yn yr ysbyty fel y'i mesurir gan y dangosfwrdd Oedi yn achos Llwybrau Gofal<br>• 100% o bractisau meddygon teulu yn cyflawni'r holl Safonau Mynediad Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) yn ystod oriau<br>• Cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio Gwasanaeth Fferyllydd-bresgripsiynydd Annibynnol ar gyfer mân gyflyrau acíwt a gwasanaethau atal cenhedlu rheolaidd lle mae'r claf yn dweud y byddai wedi ymweld â'i feddyg teulu fel arall<br>• Cynnydd yng nghanran y boblogaeth oedolion/plant sy'n cael mynediad at ofal deintyddol y GIG dros gyfnod o 24 mis (oedolyn) / 12 mis (plentyn)<br>• Cynnydd yn y capasiti dros y penwythnos ar gyfer nyrsio cymunedol a nyrsio gofal lliniarol arbenigol i'r lefelau gofynnol o leiaf a bennwyd yn flaenorol ar gyfer 2024/25 ac yn uwch lle bo modd<br>• Cynyddu capasiti Gofal Cymunedol Uwch i'r lefelau gofynnol o leiaf a |

| | |
|---|---|
| | bennwyd yn flaenorol ar gyfer 2024/25 ac yn uwch lle bo modd. |
| Mynediad Amserol at Ofal | • Nifer y trosglwyddiadau ambiwlans dros un awr – targed cenedlaethol - sero<br>• Lleihau nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal argyfwng mawr a mân o gyrraedd nes cael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o'i gymharu â'r un mis y flwyddyn flaenorol, gan adeiladu tuag at y targed cenedlaethol o sero<br>• Ddim cleifion yn aros mwy na 104 wythnos i gael eu hatgyfeirio at driniaeth.<br>• Tuedd wella o 12 mis yng nghanran y cleifion sy'n dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf ar gyfer canser o fewn 62 diwrnod o'r pwynt amheuaeth (ni waeth beth yw'r llwybr atgyfeirio), gan adeiladu at darged cenedlaethol o 80% erbyn 31 Mawrth 2026.<br>• Nifer y cleifion sy'n aros mwy nag 8 wythnos am brawf diagnostig penodol - targed o sero |
| Iechyd Meddwl<br>(Ar gyfer oedolion a CAMHS – i adrodd yn eu herbyn ar wahân) | • 80% o asesiadau iechyd meddwl yn cael eu cynnal o fewn (hyd at a chan gynnwys) 28 diwrnod o ddyddiad derbyn yr atgyfeiriad<br>• 80% o ymyriadau therapiwtig yn cael eu dechrau o fewn (hyd at a chan gynnwys) 28 diwrnod ar ôl asesiad gan Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol (LPMHSS) |
| Iechyd Menywod | • Sefydlu un Hwb Iechyd Menywod yn ardal pob bwrdd iechyd erbyn mis Mawrth 2026 (sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Iechyd Menywod) |